

Adroddiad ar Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (lle rhoddwyd rhybudd)

Urbasba, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 11 Chwefror 2026

Dyddiad cyhoeddi: 14 Mai 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83745-563-8

© Hawlfraint y Goron 2026

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
4.	Y camau nesaf	17
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	18
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	18
	Atodiad C - Cynllun gwella	20

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Urbasba ar 11 Chwefror 2026.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o ddau holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur AGIC yn gadarnhaol, gyda'r ddau ymatebydd yn nodi bod y gwasanaeth yn 'dda iawn'.

Gwelsom fod y staff yn gyfeillgar ac yn groesawgar a bod ymgynghoriadau'n cael eu cynnal mewn ystafelloedd trin a oedd yn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd trefniadau cydsynio priodol ar waith, a gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn cydsynio cyn pob triniaeth a bod risgiau a manteision y driniaeth yn cael eu trafod. Roedd gwybodaeth ar gael yn hawdd gyda fersiynau print bras ar gael ar gais, ac roedd arwyddion dwyieithog yn ategu'r broses gyfathrebu.

Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith, a dywedwyd wrthym fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Fodd bynnag, nid oedd adborth yn cael ei gasglu, ac nid oedd system ar waith i geisio barn cleifion yn rheolaidd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cyflwyno system i gasglu adborth gan gleifion yn rheolaidd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y prosesau cydsynio yn glir, wedi'u dogfennu'n dda ac yn gyson
- Roedd y broses hybu iechyd wedi'i phersonoli a'i chofnodi yng nghofnodion y cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y lleoliad yn darparu gofal diogel ac effeithiol mewn amgylchedd diogel a oedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd y lleoliad yn lân, wedi'i oleuo'n dda ac yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dda.

Roedd trefniadau iechyd a diogelwch priodol ar waith, gan gynnwys tystysgrifau diogelwch tân, trydanol a nwy, ac roedd y systemau diogelwch yn cael eu profi'n rheolaidd. Roedd y trefniadau atal a rheoli heintiau yn effeithiol ar y cyfan, gyda chyfleusterau, cyfarpar diogelu personol a threfniadau gwaredu gwastraff addas ar waith. Er bod trefniadau glanhau dyddiol ar waith, nid oedd cofnodion glanhau hanesyddol yn cael eu cynnal; ymdriniwyd â hyn ar ddiwrnod yr arolygiad.

Roedd y trefniadau o ran diogelwch laserau yn gadarn, a gwelsom dystiolaeth o oruchwyliaeth Cynghorydd Diogelu rhag Laserau, rheolau lleol priodol, hyfforddiant staff a threfniadau diogel ar gyfer storio cyfarpar. Roedd gwiriadau cyn triniaeth yn cael eu cwblhau a'u cofnodi'n gyson Roedd y cofnodion yn cael eu storio'n ddiogel a'u dogfennu'n glir.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi archwiliadau atal a rheoli heintiau rheolaidd ar waith
- Atgyfnerthu'r prosesau ffurfiol ar gyfer monitro a gwella ansawdd
- Arddangos arwyddion 'dim smygu' ar y safle.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y gwasanaeth yn cadw cofnodion cleifion clir a chyflawn ac yn eu storio'n ddiogel
- Roedd trefniadau diogelwch tân ac iechyd a diogelwch addas ar waith
- Roedd yr amgylchedd yn lân, yn ddiogel ac wedi'i gyflwyno'n dda.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y trefniadau rheoli ac arwain yn darparu fframwaith llywodraethu clir. Roedd trefniadau yswiriant priodol ar waith, ac roedd tystysgrifau cofrestru AGIC wedi'u harddangos yn glir. Roedd y polisiau a'r gweithdrefnau ar gael i'r staff ar-lein. Fodd bynnag, roedd angen adolygu rhai polisiau.

Roedd cwynion yn cael eu cofnodi'n ganolog a'u monitro er mwyn nodi themâu. Fodd bynnag, nid oedd y weithdrefn gwyno a welsom wedi'i theilwra at y claf ac nid oedd yn cynnwys gwybodaeth am AGIC na gwasanaethau eirioli. Roedd yr arferion recriwtio yn briodol ac roedd gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar waith, ond nid oedd cofnodion cyflogaeth un aelod o'r staff a oedd wedi gweithio yn y lleoliad ers amser hir yn gyflawn.

Roedd y trefniadau hyfforddi yn effeithiol ar y cyfan, ac roedd y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar feysydd allweddol. Roedd systemau monitro cadarn hefyd ar waith. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion hyfforddiant ar ddiogelu yn nodi'n glir fod yr hyfforddiant hwn wedi'i gwblhau i'r lefel ofynnol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod polisiau'n cael eu hadolygu a'u diweddarau ar yr adegau gofynnol
- Rhoi gweithdrefn gwyno sy'n canolbwyntio ar y claf ar waith sy'n cynnwys gwybodaeth am AGIC a gwasanaethau eirioli

- Sicrhau bod cofnodion cyflogaeth pob aelod o'r staff yn gyflawn ac yn hygyrch

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd hyfforddiant yn cael ei fonitro'n effeithiol drwy system ar-lein
- Roedd prosesau recriwtio clir a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y lleoliad i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir yn y clinig. Cawsom gyfanswm o ddau holiadur wedi'u cwblhau. Dywedodd y ddau ymatebydd a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir yn 'dda iawn'.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"...bob amser yn broffesiynol ac effeithiol iawn yn ei rôl, ac yn cynnig gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol"

Diogelu a gwella iechyd

Dywedwyd wrthym fod y lleoliad yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn ystod y broses ymgynghori â chleifion. Roedd y lleoliad yn trafod ffactorau iechyd a ffordd o fyw cyffredinol y cleifion, gan gynnwys eu cefndir, eu lefelau gweithgarwch, eu harferion o ran gofal y croen, eu cymeriant alcohol, eu statws smygu, a'u cymeriant dŵr. Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth yn cael ei theilwra at anghenion y claf. Roedd adran bwrpasol yn cael ei defnyddio yng nghofnodion cleifion i ddogfennu unrhyw gyngor a roddwyd mewn perthynas â'u hiechyd.

Urddas a pharch

Ar ddiwrnod yr arolygiad, roeddem o'r farn bod y staff yn gyfeillgar ac yn groesawgar. Dywedwyd wrthym fod pob ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn yr ystafell drin a bod y drysau'n cael eu cadw ar gau wrth gynnal triniaethau er mwyn sicrhau preifatrwydd cleifion. Ni allai pobl eraill yn y lleoliad glywed sgysiau, a oedd yn sicrhau preifatrwydd cleifion. Dywedwyd wrthym nad oedd y lleoliad yn cynnig yr opsiwn o hebryngwr i gleifion yn ystod triniaeth.

Gwybodaeth i gleifion a chydysniad cleifion

Gwelsom fod gweithdrefn gydsynio briodol ar gael yn y lleoliad. Dywedwyd wrthym fod triniaethau yn cael eu hesbonio'n llawn i gleifion yn ystod y cam ymgynghori a bod cydsyniad yn cael ei roi ym mhob apwyntiad, a hynny cyn y driniaeth. Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth i gleifion ar gael mewn print bras ar gais.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf. Roedd ffurflenni cydsynio wedi'u llofnodi ar gael ar gyfer pob un o'r pum claf a gwelsom dystiolaeth bod eu hanesion meddygol wedi'u gwirio a'u diweddarau yn ystod pob

ymweliad. Dywedwyd wrthym fod risgiau a manteision triniaethau yn cael eu trafod â chleifion yn ystod eu hymgyngoriad, a bod gwybodaeth bellach ar gael ar y ffurflen gydsynio.

Dywedodd pob claf a ymatebodd i'r holiadur ei fod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd Datganiad o Ddiben ar waith yn y lleoliad, a oedd ar gael i gleifion ar gais, yn ogystal â thaflen wybodaeth i gleifion a oedd ar gael yn yr ystafell drin. Roedd y ddwy ddogfen wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac roeddent yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Dywedwyd wrthym fod staff sy'n gallu siarad Cymraeg ar gael ar gais. Roedd y lleoliad yn cynnig gwasanaeth dwyieithog, a gwelsom arwyddion a phosteri dwyieithog ar y diwrnod. Dywedwyd wrthym hefyd fod neges y peiriant ateb yn ddwyieithog. Pe bai cleifion am siarad iaith arall, byddent yn cael eu hannog i drefnu dehonglydd.

Gallai cleifion nad oedd ganddynt fynediad digidol ffonio'r lleoliad neu ddod i'r lleoliad i drefnu apwyntiad, a byddai unrhyw wybodaeth yn cael ei darparu iddynt ar ffurf papur.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael ymgynghoriad llawn wyneb yn wyneb. Yn ystod yr ymgynghoriad, byddai'r staff yn trafod cost y driniaeth, nifer y sesiynau y byddai eu hangen, y canlyniadau disgwylidig, a'r risgiau a'r manteision ar lafar. Gwelsom dystiolaeth bod profion croen yn cael eu cynnal a bod hanes meddygol y claf yn cael ei ddogfennu. Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth am ôl-ofal yn cael ei darparu i gleifion ar ôl triniaeth ar lafar ac ar bapur.

Dywedodd pob ymatebydd a gwblhaodd holiadur ei fod wedi cael prawf croen cyn cael triniaeth newydd, a'i fod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr holl opsiynau triniaeth ynghyd â'r risgiau a'r manteision.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar waith yn y lleoliad. Dywedwyd wrthym fod pob claf sy'n mynychu'r lleoliad yn cael ei drin yn gyfartal, a bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Dywedwyd wrthym fod hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu cynnal, a bod rhagenwau a ffefrir yn cael eu defnyddio a'u newid yng nghofnodion cleifion ar gais.

Dywedodd un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC nad oedd wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth nac wrth ei ddefnyddio, a dywedodd y llall ei fod wedi wynebu achos o wahaniaethu. Oherwydd y nifer cyfyngedig o ymatebion a gafwyd, ni fu modd i ni archwilio hyn ymhellach na dod i unrhyw gasgliadau ehangach.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Dywedwyd wrthym nad oedd adborth yn cael ei gasglu gan gleifion yn y lleoliad, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o adborth blaenorol ar gael.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i geisio barn cleifion fel mater o drefn.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Roedd y lleoliad wedi'i leoli yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro. Roedd mynediad i'r safle wedi'i gyfyngu'n briodol, ac roedd mynediad yn cael ei reoli drwy system diogelwch bathodynau adnabod y coleg.

Gwelsom fod y lleoliad yn lân ac wedi'i addurno i safon dda. Gwelsom fod pob ardal wedi'i goleuo'n dda ac yn ymddangos yn fodern. Roedd camerâu diogelwch ar waith yn y lleoliad ac roedd arwydd yn rhoi gwybod i gleifion eu bod yn bresennol. Pan nad oedd yn cael ei defnyddio, roedd yr ystafell drin yn cael ei chloi, ac roedd yr allwedd yn cael ei chadw mewn lleoliad diogel.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom dystiolaeth bod gan y lleoliad dystysgrif diogelwch nwy a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd tystysgrif gosodiadau trydanol ar gael a gwblhawyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf, a gwelsom dystiolaeth bod profion offer cludadwy (PAT) wedi'u cwblhau ym mis Awst 2025.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer diogelwch tân yn y lleoliad a gwelsom fod asesiad risg tân addas ar waith a oedd yn cael ei adolygu'n flynyddol. Gwelsom dystiolaeth bod y cyfarpar diffodd tân wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd gwiriadau wythnosol ar waith ar gyfer y larymau tân, ac roedd gwiriadau o'r goleuadau brys yn cael eu monitro'n rheolaidd drwy system ddigidol. Gwelsom fod arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân wedi'u harddangos mewn lleoliadau priodol ym mhob rhan o'r lleoliad, ynghyd â chyfarwyddiadau i'w dilyn pe bai tân. Roedd cofnodion ymarferion tân ar gael ac yn cael eu cwblhau ddwywaith y flwyddyn. Dywedwyd wrthym fod y lleoliad ar gampws di-fwg. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd unrhyw arwyddion i'w gweld i roi gwybod i gleifion nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig arddangos arwyddion 'dim smygu' ar y safle.

Roedd tîm ystadau'r lleoliad yn cwblhau asesiadau risg iechyd a diogelwch yn rheolaidd ac roeddent yn cael eu dosbarthu drwy'r coleg.

Gwelsom fod staff cymorth cyntaf wedi'u hyfforddi'n briodol ar gael, a bod pecyn cymorth cyntaf ar gael yn hawdd. Roedd yr holl eitemau sy'n ofynnol mewn pecyn cymorth cyntaf yn bresennol ac yn gyfredol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod yr ystafell drin ar gyfer triniaethau laser yn lân yr olwg. Roedd y cyfarpar a'r dodrefn wedi'u gwneud o ddefnyddiau y gellid eu sychu'n hawdd. Roedd lefelau priodol o gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael, ac roedd cyfleusterau golchi dwylo ar gael yn yr ystafell drin.

Gwnaethom ofyn am gael gweld tystiolaeth o amserlenni glanhau, a rhoddodd y staff daflen wedi'i lamineiddio i ni a oedd yn cael ei chwblhau bob dydd y defnyddiwyd yr ystafell drin ac yna'n cael ei sychu'n lân ar ddiwedd y dydd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnodion hanesyddol ar gyfer amserlenni glanhau. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn ar y diwrnod. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn [Atodiad A](#).

Gwelsom fod gweithdrefn atal a rheoli heintiau briodol ar waith. Gwelsom fod polisi a contract ar waith ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff yn ddiogel, a bod unrhyw wastraff a oedd yn aros i gael ei gasglu yn cael ei storio mewn ardal ddiogel.

Gwnaethom ofyn am gael gweld copi o archwiliad atal a rheoli heintiau y lleoliad; fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd archwiliadau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi archwiliadau atal a rheoli heintiau ar waith i'w cwblhau yn rheolaidd.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i drin cleifion 18 oed a throsodd a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn cydymffurfio â hyn. Dywedwyd wrthym y gellid dod â phlant ar y safle, ond na allent fynd i mewn i'r ystafell laser.

Gwelsom dystiolaeth bod polisi diogelu oedolion a pholisi chwythu'r chwiban ar waith. Roedd arweinwyr diogelu ar waith yn y coleg a byddai'r gwasanaeth yn cysylltu â nhw pe bai ganddo bryder. Dywedwyd wrthym y byddai pryderon am ddiogelu yn cael eu cofnodi drwy lwyfan ar-lein a'u hanfon at dîm diogelu'r coleg, a fyddai'n ymdrin â nhw'n briodol.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y peiriant laser yn y lleoliad yr un fath â'r un a oedd wedi'i gofrestru ag AGIC. Gwelsom dystiolaeth bod contract cyfredol ar waith gyda chynghorydd diogelu rhag laserau. Dywedwyd wrthym fod y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi ymweld â'r lleoliad ddiwethaf yn 2024, a bod adroddiad cyfredol ar gael a oedd yn cynnwys rheolau lleol ac asesiadau risg. Cawsom hefyd gopi o'r protocolau meddygol priodol. Roedd y rheolau lleol ar gael yn hwylus ac roeddent wedi'u llofnodi gan bob gweithredwr.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yr allwedd ar gyfer y peiriant laser yn cael ei thynnu pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio a'i storio'n ddiogel yn rhywle arall i ffwrdd oddi wrth y peiriant, mewn sêff allweddi. Roedd arwydd ar ddrws yr ystafell drin yn rhoi gwybod i eraill fod peiriant laser yn cael ei ddefnyddio yn yr ystafell, ac roedd arwydd llithro hefyd ar gael i ddangos pan oedd yn cael ei ddefnyddio. Dywedwyd wrthym fod gwiriadau sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal ar y peiriant laser, er enghraifft i wirio'r lens cyn ei ddefnyddio.

Dywedwyd wrthym fod sbectolau amddiffynnol yn cael eu harchwilio a'u glanhau cyn eu defnyddio; roedd y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yng nghofnod y claf. Gwnaethom ofyn am gael gweld y sbectolau amddiffynnol a ddefnyddir gan y gweithredwyr a'r cleifion pan fydd triniaethau laser yn cael eu cynnal. Dangoswyd chwe sbectol amddiffynnol i ni a oedd yn cael eu defnyddio gan y gweithredwr, a gorchuddion llygaid blacowt a oedd yn cael eu defnyddio gan gleifion. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r sbectolau amddiffynnol mewn cyflwr da ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Fodd bynnag, roedd lensys tri phâr wedi'u difrodi. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn ar y diwrnod. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn [Atodiad A](#).

Roedd pob aelod o'r staff a oedd yn gweithredu'r peiriant laser wedi cwblhau hyfforddiant ar gyfer y peiriant penodol. Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion fod gwiriadau cyn triniaeth yn cael eu cynnal, fel asesiad o'r croen gan ddefnyddio graddfa Fitzpatrick a phrawf croen 48 awr cyn y driniaeth.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwnaethom ofyn am weld tystiolaeth o weithgareddau gwella ansawdd a gynhaliwyd gan y lleoliad. Dywedodd y staff wrthym fod adolygiadau ar-lein yn cael eu monitro'n rheolaidd i sicrhau ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, a bod cwynion hefyd yn cael eu monitro.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu dogfennu ar bapur, a bod yr holl gofnodion papur yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo. Dywedodd y staff wrthym na fu angen iddynt waredu cofnodion cleifion eto; fodd bynnag, roeddent yn gallu disgrifio'r broses ar gyfer gwaredu cofnodion, gan gynnwys cyfnodau cadw data.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf a gwelsom fod yr holl wybodaeth yn bresennol. Cawsom gopi o gofrestr triniaethau lle roedd yr holl wybodaeth yn glir ac yn ddarllenadwy. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth fel dyddiad y driniaeth, yr ardal a gafodd ei thrin, paramedrau perthnasol, ac unrhyw effeithiau andwyol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Mae Urbasba yn cael ei redeg gan Goleg Caerdydd a'r Fro, ac mae dau aelod o staff yn gweithredu'r peiriant laser. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant atebolrwydd cyflogwr y lleoliad. Gwnaethom nodi bod tystysgrifau cofrestru AGIC y lleoliad ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg wrth y fynedfa.

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau addas ar waith a oedd ar gael yn hawdd i'r staff ar-lein. Caiff unrhyw ddiweddariadau i bolisïau eu rhannu drwy gylchlythyr wythnosol y coleg. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod nifer o'r polisïau wedi dyddio a bod angen eu hadolygu. Pan drafodwyd hyn â'r staff yn y lleoliad, gwnaethant ddweud mai adran ansawdd y coleg oedd yn gyfrifol am y polisïau, ac nad oeddent yn cyfrannu atynt.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisïau'n cael eu hadolygu a'u diweddarau ar yr adegau gofynnol.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Dywedwyd wrthym pe bai claf am godi pryder, y byddi'n cael copi o'r weithdrefn gwyno. Roedd cwynion yn cael eu cadw ar system ganolog a'u huwchgyfeirio at dîm ansawdd y coleg a fyddai'n eu monitro er mwyn nodi themâu cyffredin. Dywedodd y staff wrthym nad oedd unrhyw gwynion ffurfiol wedi dod i law.

Gwnaethom edrych ar y weithdrefn gwyno a oedd ar gael a gwelsom fod manylion ar gael am bob cam o gŵyn. Fodd bynnag, gwnaethom nodi ei fod wedi'i hanelu at fyfyrwyr ac nid cleifion yn y lleoliad. Gwnaethom hefyd nodi nad oedd yn cynnwys unrhyw wybodaeth am AGIC na gwasanaethau eirioli.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi gweithdrefn gwyno ar waith ar gyfer cleifion yn y lleoliad a chynnwys gwybodaeth am AGIC a gwasanaethau eirioli.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom fod polisi a gweithdrefn recriwtio priodol ar waith. Dywedwyd wrthym fod hysbysebion swyddi yn cael eu postio'n allanol ar-lein a bod gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cynnal yn ôl yr angen.

Dywedwyd wrthym fod dau weithredwr peiriant laser yn y lleoliad. Gwelsom dystiolaeth o wiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer pob un o'r gweithredwyr Goleuni Pwls Dwys. Gwnaethom edrych ar gofnodion dau aelod o'r staff a gwelsom fod y rhan fwyaf o'r gwiriadau ar waith. Fodd bynnag,

gan fod un aelod o'r staff wedi gweithio yn y lleoliad ers dros 18 mlynedd, ni allai adran Adnoddau Dynol y coleg ddarparu contract cyflogaeth, dau eirida na hanes cyflogaeth llawn ar ei gyfer. Dywedwyd wrthym mai'r rheswm dros hyn oedd bod y wybodaeth wedi'i chadw ar bapur ac nad oedd wedi cael ei throsglwyddo i'r system ddigidol a ddefnyddir nawr.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cyflogaeth pob aelod o'r staff ar gael.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwnaethom ofyn am gael gweld cofnodion hyfforddiant dau aelod o'r staff. Darparwyd manylion hyfforddiant cyfredol ar gyfer craidd gwybodaeth, hyfforddiant ar gyfer cyfarpar laser penodol, a hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau ac ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân. Roedd tystiolaeth ar gael o hyfforddiant ar ddiogelu; fodd bynnag, mae'n ofynnol i weithredwyr laser gwblhau hyfforddiant hyd at lefel 2, ac nid oedd hyn wedi'i nodi ar y dystysgrif.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu hyd at y lefel ofynnol.

Gwnaethom hefyd nodi nad oedd hyfforddiant wedi'i gwblhau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, iechyd a diogelwch yn y gwaith na llywodraethu gwybodaeth.

Roedd hyfforddiant yn cael ei fonitro'n effeithiol drwy system hyfforddiant ar-lein. Pan fyddai cwrs ar fin dod i ben, byddai'r staff yn cael e-bost i'w hysbysu ac i sicrhau eu bod yn cwblhau'r cwrs.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd unrhyw gofnodion hanesyddol ar gyfer amserlenni glanhau.	Ni allem fod yn sicr bod prosesau glanhau priodol wedi'u cynnal yn yr ystafell laser, a allai beri risg i gleifion.	Tynnwyd sylw'r staff at hyn ar unwaith ar ddiwrnod yr arolygiad.	Gwnaeth aelodau o'r staff addasiadau i'r amserlen lanhau fel bod modd ei hargraffu'n ddyddiol, a rhoddwyd proses ar waith i sicrhau bod copïau'n cael eu cadw er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol.
Roedd lensys tri phâr o sbectolau amddiffynnol wedi'u difrodi.	Risg y gallai gweithredwr wisgo sbectol amddiffynnol wedi'i difrodi, a allai achosi niwed parhaol i'w lygaid.	Tynnwyd sylw'r staff at hyn ar unwaith ar ddiwrnod yr arolygiad.	Cafodd y sbectolau amddiffynnol a oedd wedi'u difrodi eu gwaredu gan aelodau o'r staff ar adeg yr arolygiad.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Urbasba

Dyddiad yr arolygiad: 11 Chwefror 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Urbasba

Dyddiad yr arolygiad: 11 Chwefror 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	
1.	Dywedwyd wrthym nad oedd adborth yn cael ei gasglu gan gleifion yn y lleoliad, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o adborth blaenorol ar gael.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i geisio barn cleifion fel mater o drefn.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 19 (2)(e)	Mae Cod QR gydag arolwg Microsoft Office wedi'i greu. Bydd y cod hwn yn cael ei arddangos yn yr ardal drin a byddwn yn tynnu sylw cleifion ato er mwyn iddynt roi adborth.	Louise McCarthy	Wedi'i gwblhau
2.	Nid oedd unrhyw arwyddion i'w gweld i roi gwybod i gleifion nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig arddangos arwyddion 'dim smygu' ar y safle.	Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020, Adran 13(2)	Mae arwyddion wedi'u harddangos ym mhob rhan o'r coleg. Mae arwyddion ychwanegol wedi'u prynu i'w harddangos yn y brif salon a'r ardaloedd trin	Louise McCarthy	Wedi'i gwblhau

3.	Dywedwyd wrthym nad oedd archwiliadau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi archwiliadau atal a rheoli heintiau ar waith i'w cwblhau yn rheolaidd.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011 19(1)(a)	Mae archwiliad atal a rheoli heintiau bellach wedi'i lunio a bydd archwiliadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd.	Louise McCarthy Laura Southern	Wedi'i gwblhau
4.	Gwnaethom nodi nad oedd nifer o'r polisiau yn gyfredol a bod angen eu hadolygu.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisiau'n cael eu hadolygu a'u diweddarau ar yr adegau gofynnol.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011 9(5)	Codwyd hyn ag adran rheoli a Thîm Ansawdd y coleg.	Louise McCarthy	Wedi'i gwblhau
5.	Gwnaethom nodi bod y weithdrefn gwyno wedi'i hanelu at fyfyrwyr ac nid cleifion yn y lleoliad. Gwnaethom hefyd nodi nad oedd yn cynnwys unrhyw wybodaeth am AGIC na gwasanaethau eirioli.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi gweithdrefn gwyno ar waith ar gyfer cleifion yn y lleoliad a chynnwys gwybodaeth am AGIC a gwasanaethau eirioli.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011 24	Codwyd hyn gyda'r Tîm Ansawdd ac mae wrthi'n datblygu polisi newydd sydd wedi'i anelu'n fwy at gleifion yn unol â'ch cais	Louise McCarthy	31 Mai 2026
6.	Nid oedd hanes cyflogaeth, dau eirda na contract cyflogaeth ar gael ar gyfer un aelod o'r staff.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cyflogaeth pob aelod o'r staff ar gael.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011 21 (2)(d)	Codwyd hyn gyda'r adran Adnoddau Dynol a ddywedodd wrthym fod y cofnodion hyn bellach yn ddigidol ac nad oes copïau papur ohonynt wrth law.	Louise McCarthy	Wedi'i gwblhau

7.	Roedd tystysgrif hyfforddiant ar ddiogelu ar gael ond nid oedd yn glir hyd at ba lefel yr oedd wedi'i gwblhau.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu hyd at y lefel ofynnol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 20(2)(a)	Mae ein Tîm Ansawdd wedi cadarnhau nad oes fframwaith yn gysylltiedig â'r hyfforddiant ar Ddiogelu a ddarperir. Rwyf wedi gofyn i AGIC am argymhellion o ran cyrsiau addas a byddaf yn dod o hyd i rai eraill cyn gynted â phosibl.	Louise McCarthy	30 Mehefin 2026
----	--	--	--	---	-----------------	-----------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Louise McCarthy

Teitl swydd: Darlithydd / Goruchwyliwr Laser

Dyddiad: 26 Mawrth 2026